Y Parchedig Thomas Hughes
1892-1920



Un o Aberhonddu oedd y Parchedig Thomas Hughes a ddaeth i Minny Street o Lansanffraid, Maldwyn. Bu'n weinidog Minny Street am 28 mlynedd tan ei ymddeoliad yn 1920. Dyma gyfrif T. W. Brace o'i weinidogaeth yng nghofnodion yr Eglwys,

'*Wrth olrhain ei yrfa weinidogaethol, ni ddaeth cymaint a chwmwl cledr llaw i ammharu cymdeithas y saint ... Glynai yn dyn i'w argyhoeddiad, ac yr oedd ei unplygrwydd yn ddiareb ai athrawiaeth yn uniongred. Nodweddwyd ef fel pregethwr gan gadernid ei ymresymiad, a dyfnder ei argyhoeddiad, ac yn aml y gogwyddai at y llym a'r miniog, nes peri i ni feddwl, mai un o eiriau mawr ei fywyd, oedd "gwna hyn" a byw fyddi. Yn ddiau, un o Biwritaniaid ei hoes ydoedd. Ond piwritan heb ddim o selni meddalwch oi gwmpas ... Ond yn goron ar y cyfan, meddai ar gymeriad glan, a dygai fawr sel dros bwlpud glan, ac ni fynai, ar unrhyw delerau gymhodi ag ysgafnder yn y cylchoedd cyssegredig'*.

Yn ystod ei weinidogaeth, bu cryn lewyrch ar Minny Street gyda chodi oriel yn y capel, prynu organ newydd a newid y goleuadau ond gwelwyd cwmwl dechrau Saesnigo'r plant a'r aelodau iau, a throi at Saesneg yn iaith yr aelodau rhyngddynt â'i gilydd. Ymdrechodd y Gweinidog i atal hyn drwy gynnal dosbarthiadau Cymraeg i'r plant a'r bobl ieuanc ac annog yr aelodau i ddefnyddio'r Gymraeg ymhlith ei gilydd.

Bu'n Ysgrifennydd yr Undeb yn ystod y cyfnod 1905–7.

Yn 1912 cyflwynodd y diaconiaid anerchiad hardd iddo ar ran yr Eglwys yn mynegi eu gwerthfawrogiad ohono. Mae'r anerchiad ar gadw yn ystafell y Gweinidog.

Ymddeolodd yn 1920 a phenderfynodd yr Eglwys roi pensiwn o £1.10s.0d yr wythnos iddo – peth prin iawn y dyddiau hynny. Bu farw ym mis Ebrill 1920, ychydig fisoedd yn unig wedi ei ymddeoliad a chladdwyd ei weddillion ym mynwent gyhoeddus Machynlleth. Mae coflech iddo ar fur y capel ac arni'r adnod, '*Pregethais gyfiawnder yn y gynnulleidfa fawr: wele nid atteliais fy ngwefusau; Ti Arglwydd a'i gwyddost.*'

(Glyn E. Jones *allan o* ***Llewyrch Ddoe, Llusern Yfory***. 2009. *Gol:* J. Gilbert Evans, Glyn E. Jones, Iolo M.Ll. Walters; cyhoeddwyd gan Eglwys Annibynnol Minny Street Caerdydd)